2022/2023

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyngor Bro Llanfairpwll

Ebrill 2023

Adroddiad Blynyddol 2022/ 2023

CYNNWYS

- Cyflwyniad
- Gweledigaeth Cyngor Bro Llanfairpwll
- Ardal Gweithredu Cyngor Bro Llanfairpwll
- Strywthyr Cyngor Bro Llanfairpwll
- Strwythyr Neuadd Goffa, Llanfairpwll (Cyngor Bro)
- Neges gan y Cadeirydd 2022/23
- Teyrnged Cyng. Mr Alun Wyn Mummery
- Prosiectau 2022/23
- Adroddiad Holiadur
  - *Gweithredu ar farn y bobl 2022*
- Diolch

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma yn nodi gwaith Cyngor Bro Llanfairpwll rhwng mis Mehefin 2022 ac Ebrill 2023. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif prosiectau ac uchafbwyntiau gwaith yr holl wirfoddolwyr ar y Cyngor Bro.

O fewn Cyngor Bro Llanfairpwll, mae yna bwyllgorau bach sydd wedi'u sefydlu er mwyn ymdrin â phynciau penodol yn lle eu bod yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd misol y Cyngor Bro. O fewn y pwyllgorau yma, mae yna ambell i brosiect wedi ei gyllido gan sawl ffynhonnell sydd wedi bod o gymorth i'w gweithredu, e.e. Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn.

Gweledigaeth Cyngor Bro Llanfairpwll

"Cyd-weithio gyda'n gilydd o fewn y gymuned i symud ymlaen a creu dyfodol disglair i'r genhedlaeth nesaf, gwarchod yr amgylchedd, yr ardal, yr iaith, y gymuned a'i phobl"

Rydym yn mynd I wneud hyn -

- Cryfhau seiliau'r Cyngor trwy gynyddu'r prosiectau o fewn y pentref a'u cwblhau i safon uchel.
- Mae angen i ni fel Cyngor edrych ymlaen a chreu cyfleoedd incwm newydd i'r Cyngor a'r Neuadd Goffa.
- Cryfhau yr holl bolisïau mewnol, prosesau'r Cyngor a'i eiddo, er lles y staff a'r gwifoddolwyr.
- Blaenoriaethu prosiectau yn y gymuned fydd yn gwella budd economaidd y pentref, edrych ar ôl yr amgylchedd, cadw ôl traed carbon isel yn yr ardal, gwella'r gymdeithas, gan greu cymuned cryfach gan ddod â phawb at ei gilydd i gydweithio.
- Cydweithio gyda Cynghorau Bro eraill ar yr Ynys a chyda'r Cyngor Sir.

Ardal Gweithredu Cyngor Bro Llanfairpwll



Aelodau ward Braint
Stephen Edwards
Ifor Gruffydd
Alun Jones
Dyfed Wyn Jones
Sara Williams
Bethan Mon
Arfon Williams



Aelodau ward Gwyngyll
Dyfed Wyn Jones
Gareth Cemlyn Jones
Meirion Jones
Gwynfor Parry
Adam Dean Roberts
John Roberts
Medwyn Roberts

Cyngor Bro Llanfairpwll



(Un or sefydliadau / eiddo Cyngor bro yn mynychu y Pwyllgor yma)

- *Rhandiroedd*
- *Clwb Bowlio*
- *Cylch Meithrin*
- *Pêl droed Iau*
- *Pêl droed Oedolion*
- *Cymdeithas*

Be ydi pwrpas Cyngor Bro?

Be ydi Pwrpas Cyngor Bro? Be ydi pwrpas ni fel aelodau?

Angen gosod targedau ac ini gyd
fel **aelodau** weithredu a cymeryd cyfrifoldeb.

www.llanfairpwll.cyngor.org

www.llanfairpwll.cyngor.org

Neuadd Goffa

www.neuaddllanfairpwllhall.cymru



www.llanfairpwll.cyngor.org

Neges gan y Cadeirydd 2022/2023 - Stephen Edwards

Ers i mi gael fy mhenodi'n Gadeirydd nôl yn mis Mehefin 2022, rydw i'n gobeithio mod i wedi newid y ffordd o gynnal y Cyngor er gwell, gan ymdrechu i fod llawer mwy gweithgar, yn gweithredu penderfyniadau'n gyflym, ac wedi dod â chriw newydd i fewn. Mae'n bwysig iawn cysylltu gyda phobl o fewn y gymuned a gwrando arnyn nhw . Pobol sydd yn gwneud cymunedau, pobol a phob un efo'i stori ei hun; mae'n bwysig i ni wrando ar bob un, a gweithredu i'w cynorthwyo. Rydw i'n ceisio dangos i bobl y gymuned ein bod ni yn gwneud hynny, yn cyflawni pethau, nid dim ond siarad. 'Mwy o wneud a llai o ddweud'.

Rydw i'n credu yn gryf iawn fod angen rhoi llawer mwy o sylw i'r bobl ifanc. Mae angen ymgysylltu mwy efo nhw, ac efo pobl yn gyffredinol, ac yn bennaf i geisio newid meddylfryd, yn enwedig yr agwedd gyffredinol at wleidyddiaeth, a gwleidyddion a Cyngor Bro Llanfairpwll.

Credaf yn gryf fod yn rhaid i ni wrando mwy ar bobol, yn ifanc neu'n bobol hŷn a rhoi'r cyfle i bawb, yn enwedig i'r ifanc. Rydw i'n gobeithio mod i wedi hyrwyddo'r ffordd hon o feddwl y tu mewn i Gyngor Bro Llanfairpwll dros y misoedd diwethaf wrth fod yn y gadair.

Rwy'n credu gryf yn y ffordd yma o weithio, gosod nôd a tharged, a gweithio i'w cyrraedd. Rydym yna, rydw i yna, i greu, i wneud gwahaniaeth a gwella'r gymuned – credaf ein bod yn gwneud ychydig o wahaniaeth yn Llanfairpwll, ac rydym yn falch iawn o hynny.

Ar gyfer y dyfodol, mae'n holl-bwysig i ni gydweithio yn y meysydd yma: cael y wybodaeth, rhannu gwybodaeth, cyfathrebu, canolbwyntio ar un peth, hynny er lles popeth sy'n bwysig i ni yn ein cymunedau, yn arbennig er mwyn dyfodol ein hiaith a'n diwylliant.

Trwy weithio yn Llanfairpwll y gobaith ydy y bydd yn gweithio ym Môn hefyd; trwy gynorthwyo trigolion Llanfairpwll y mae cynorthwyo holl drigolion Môn, a thrwy lwyddo yn Llanfairpwll y mae llwyddo ym Môn. Ac mae angen llawer iawn o ymdrech yn Môn y dyddiau hyn. Mae'n bwysig i mi ein bod yn dangos i Gynghorau Bro eraill Môn ein bod ni yma yn Llanfairpwll yn weithredol.

Rydw i'n credu fod gen i gryfderau, sef personoliaeth gref, a hapus, rydw i'n llawn egni, brwdfrydig, yn hoffi sgwrsio gyda rhywun, cael y gorau allan o bobl, cyd-weithio a gweithio yn galed.

"Fe gewch lwc dda drwy weithio yn galed",
a does arnaf i ddim ofn gwaith caled.

Ymlaen a ni ir flwyddyn nesaf……. diolch ichi aelodau i gyd.

TEYRNGED - Cyng. Mr Alun Wyn Mummery

Fel Cadeirydd Cyngor Bro Llanfairpwll, gyda calon drom rwyf yn 'sgwennu y neges yma.

Ychydig o ddiwrnodau cyn y Nadolig 2022, gawsom newyddion trist o farwolaeth Mr. Alun Mummery. Un o gymeriadau unigryw y pentref, yr Ynys a caeau pêl-droed Gogledd Cymru.

Mr. Mummery, Alun Mummery, Cynghorydd Mummery ond 'Mumms' i bawb ac ni fydd yna ddim un arall fel "Mumms", oran y person, ei gymeriad a personoliaeth.

Ac un gair sydd yn sefyll allan I ddisgrifio Alun "CYMWYNHASGAR"

Pethau di-werth yw geiriau ar adegau fel hyn ond pethau gwerthfawr ydi straeon a hanesion. A saff I chi, mae pob un ohonoch syn darllen hwn, gyda stori a hanes ddaw a gwên ich gwyneb. Colled enfawr ini gyd yn y pentref.

Cofio yr adeg gefais fy ethol i fewn fel Cadeirydd, a fi yn poeni *"Fedrai ddim neud y gwaith chi"* ymatyeb Mr Mummery *"Gwranda washi"* wrth iddo afael yn fy mraech *"Mi fedri di wneud y swydd, a fyddai yma i dy gefnogi fel fydd eraill"*

Diolch iddo am y gwaith, blynyddoedd o wasanaeth, y cefnogaeth i bawb dros y blynyddoedd, wastad yna am sgwrs efo rhywun a roid cyngor ini gyd.

Diolch am y hwyl, storis, y hanes, mor wybodus.

Diolch ichi Mr. Mummery, Diolch ichi Mumms. Parch enfawr ichi.

Mae'r colli yn dristwch - ond y cofio yn diddannwch

Cysgwch yn dawel. Meddwl am eich teulu i gyd.

Mi orffenai, efo'r gair ar enw nesi ddechrau, ac I chi gofio - "Mumms"

Cofion

Stephen Edwards a pawb or Cyngor Bro
Cadeirydd Cyngor Bro Llanfairpwll

Cyngor Bro
Llanfairpwll

English

Cyfarfod Llawn Cyngor Bro: Cyfarfod nesaf 28 Mawrth 2023 am 19:00yh Neuadd Goffa

Croeso i Gyngor Bro Llanfairpwll - yma ichi....

Yma fe welwch wybodaeth am Llanfairpwll, y cyngor a'n prosiectau gweithredol yn y gymuned. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi cysylltu.

GWEFAN CYNGOR BRO

Dolenni Cyflym

- Rhandiroedd
- Pwyllgor Cyllid
- Pwyllgor Y Fynwent
- Trefniadau Nadolig
- Amserlen Cyfarfodydd 2023
- Cyngor Bro
- Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo
- Pwyllgor Neuadd Goffa
- Pwyllgor Meysydd Chwarae

CYNGOR BRO – Prosiectau 2022/2023

Enw y Prosiect	-	**Neuadd Goffa**
Cost	-	£300,000
Cefnogaeth	-	Loteri
Gweithred	-	Pwyllgor Neuadd Goffa a Alun Jones, Gareth Cemlyn, Dewis Ltd

Prosiect bron â'i gwblhau, a bydd y Neuadd ar ei newydd wedd ar ôl blynyddoedd o geisio am grantiau i gyflawni'r gwaith. Diolch enfawr i Lyndsey o Medrwn Môn, a oedd yn gefnogol i'r Cyngor a phwyllgor y Neuadd gyda'r cais i'r Loteri Cenedlaethol. Mae mudiadau o bob math yn gwneud defnydd ohoni gan gynnwys yoga, bowlio a hefyd dosbarthiadau cyfrifiaduron. Gobeithio i'r dyfodol ac o fewn y flwyddyn ariannol nesaf, y gallwn **gyflogi person rhan amser i hyrwyddo** mwy o ddefnydd ar yr adnodd pwysig yma yn y pentref, gan gynnwys chwilio am ragor o grantiau.

Enw y Prosiect	-	**Defib Maes Chwarae y Gors a Maes Eilian**
Cost	-	£500 ei osod
Cefnogaeth	-	Cadeirydd a Dyfed Jones

Derbyn "defib" am ddim, ond cost i ddebryn y 'cabinet' a'i osod. Y gost yma yn cael ei dalu gan y clwb Pêl-droed Iau a'i leoli ym Maes Eilian

Enw y Prosiect	-	**Toeau ar eiddo Cyngor Bro**
Cost	-	£7,000 tua
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Cyngor Bro (Clerc)

Gafodd contractwr lleol ei gyflogi i roi toeau newydd ar adeiladau'r Cyngor. Toeau yn cael eu hadnewyddu, to'r Clwb Bowlio, to Pafiliwn y Gors, a tho Cwt y Gofalwr.

Enw y Prosiect	-	**Dolig 2022**
Cost	-	£6,000
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Alun Jones, Gareth Cemlyn Jones, Gwynfor Parry, Stephen Edwards

Mae trefniadau'r Nadolig yn parhau i fod yn boblogaidd gyda'r Cyngerdd blynyddol yn mynd o nerth i nerth. Cyngerdd yn codi arian at achosion da. Cyngor wedi buddosddi mewn coeden newydd ar gyfer y dyfodol.

Enw y Prosiect	-	**Lôn Hen Ysgol**
Cost	-	£1,500 (dim cost I Cyngor Bro)
Cefnogaeth	-	Cyngor Sir Ynys Môn
Gweithred	-	Cadeirydd

Roedd angen golau at y llwybr cerdded i drigolion y pentref sydd hefyd yn lwybr cenedlaethol i feicio. Heb y golau, roedd damwain yn anorfod. Hefyd llinellau gwyn (arwyddion).

Enw y Prosiect	-	**Prosiect y Gors / Llwybr Beicio/ Draen Gors**
Cost	-	£25,000 (dim cost I Cyngor Bro)
Cefnogaeth	-	Cyngor Sir Ynys Môn
Gweithred	-	Cadeirydd ar Clerc

Drwy holi, a holi a holi a swnian, mi gafodd y Cyngor atebion ar ol i'r Cadeirydd wneud ymholiadau ar gyfer y llwybrau beicio cenedlaethol sydd yn ymweld â'r pentref ac yn mynd i 2 neu 3 gwahanol ffordd. Mi benderfynodd y Cyngor Sir fod yna brosiect yn Llanfairpwll 'Active Travel Scheme' a'r prosiect bellach wedi'i gwblhau ac yn ddarn cyntaf o brosiect tymor hir i'r pentref.

Enw y Prosiect	-	**Rhandiroedd**
Cost	-	£24,000
Cefnogaeth	-	Grant Cyngor Sir
Gweithred	-	Dyfed Jones, Ifor Gruffydd a Medwyn Roberts

Enw y Prosiect	-	**Holiadur ir Pentrefwyr**
Cost	-	Dim cost
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Ifor Gruffydd
		***** Adroddiad or Holiadur yn ran or Adroddiad yma*****

Holiadur wedi ei greu ar ôl trafodaeth yn y Cyngor, er mwyn ei ddosbarthu o gwmpas y pentref i holi barn trigolion ar waith y Cyngor Bro. Diolch i bawb am eich adborth. Mi fydd y dadansoddiad yn cael ei rannu yn fuan. Mi fydd y Cyngor yn edrych ar y canfyddiadau ac yn penderfynnu sut i ymateb i'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg.

Enw y Prosiect	-	**Pwyntiau Gwefru**
Cost	-	Dim cost i Cyngor Bro
Cefnogaeth	-	Menter Mon (Jackie Lewis)
Gweithred	-	Alun Jones, Gareth Cemlyn Jones

Pwyntaiu gwefru i hyrwyddo defnydd moduron trydan ac i ni fel Cyngor Bro greu incwm i'r Neuadd Goffa. Mi fydd y pwyntiau gwefru ar gael ddydd a nos i unrhyw un gysylltu â'r grid cenedlaethol. Ar gael i bobl leol ac ymwelwyr.

Enw y Prosiect	-	**Paneli Solar**
Cost	-	£7,500
Cefnogaeth	-	Ymddiredolaeth yr Ynys
Gweithred	-	Cyngor Bro (Clerc), Gareth Cemlyn

Penderfynwyd creu Is-gynnyrch 7kW o baneli solar ar y Neuadd Goffa, fydd yn help i gadw ôl-troed carbon y Neuadd i lawr. Hefyd yn dangos fod gan y Cyngor Bro weledigaeth bendant ac hefo cyfraniad pendant wrth fynd i lawr y ffordd 'gwyrdd' a 'net zero'

Enw y Prosiect	-	**Arwyddion Stryd Fawr Neuadd Goffa**
Cost	-	Dim Cost
Cefnogaeth	-	Cyngor Sir Ynys Môn
Gweithred	-	Cadeirydd

Cyd-weithio gyda'r Cyngor Sir er mwyn archebu arwyddion ar gyfer y Neuadd Goffa, gan gynnwys symbol pwyntiau gwefru i foduron trydan.

Enw y Prosiect	-	**Gwella Maes Chwarae**
Cost	-	£1,000
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Cadeirydd, Gareth a Ifan

Gwella'r matiau ym Maes Chwarae'r Gors ac adnewyddu 2 'swing'
Penderfynwyd creu grŵp bach i edrych ar sefyllfa'r Gors a chasglu syniadau a chwilio am ffynhonellau ariannol i greu delwedd newydd i'r lleoliad.

Enw y Grŵp "SYNIADAU', cynnwys, Ifor, Meirion, Sara, Medwyn,
Alun Jones a Stephen Edwards

Diolch i Gareth a Ifan am neud y gwaith.

Enw y Prosiect	-	**Twrci, Sgwrs a Panad**
Cost	-	£200
Cefnogaeth	-	Grant Cyngor Sir
Gweithred	-	Cadeirydd, Clerc

Enw y Prosiect	-	**Gofalwr y Gors / Cyngor (Ifan)**
Cost	-	Cyllid Blynyddol - Cyflog misol
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Cyngor Bro (Clerc)

Mi fydd y Gofalwr yn derbyn Cynllun Gwaith a Swydd Disgrifiad o fis Mai 2023. Cynllun wythnosol yn y pentref ac i eiddo'r Cyngor Bro.

Enw y Prosiect	-	**Prosiect Arlunydd**
Cost	-	£800 Grant (dim cost I Cyngor Bro)
Cefnogaeth	-	Menter Môn (Catrin Lois)
Gweithred	-	Cadeirydd a Menter Môn

Bwriad y grant, cynllun gan Menter Môn, coedd comisiynu artist *"Momo signs"* i greu darlun ar safle bws Lôn Penmynydd i gynnwys pennill yn y Gymraeg am leoliadau'r pentref o fewn y darlun.

Enw y Prosiect	-	**Noson SERA**
Cost	-	£600 (dim cost I Cyngor Bro)
Cefnogaeth	-	Cronfa Dydd Gwyl Dewi Ynys Môn Cyngor Môn, Medrwn Môn, Ynys Môn Gyfeillgar.
Gweithred	-	Sara Williams

Enw y Prosiect	-	**HELFA PASG**
Cost	-	£300 (wedi casglu £1300 i Cylch a Ysgol)
Cefnogaeth	-	Tom Hughes Cigydd / Cyfraniad Cymuned gan Coop Spar a Blakemore a Marquees Dental
Gweithred	-	Sara Williams

Enw y Prosiect	-	**Biniau Sbwriel y Gors a Baw cwn**
Cost	-	£700
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Clerc (Ifan yn gwagio) Kevin Humprheys

Enw y Prosiect	-	**Hysbyfwrdd yn y Gors a Neuadd Goff**
Cost	-	£2,500
Cefnogaeth	-	Cyngor Bro
Gweithred	-	Alun Jones, Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd

Mi fydd y Cyngor yn archebu hysbysfwrdd ychwanegol ofewn y mis nesaf, er mwyn ei leoli yn y Gors ger y Maes Chwarae. Archebu ysbysfwrdd llai yn cael ei roid ar wal y Neuadd Goffa. Mi fydd y hysbysfwrdd presennol yn aros yn ei leoli ac yn cael ei ddefnyddio gan criw y Neuadd Goffa, Ysgol, Cylch fel eleni yn ystod dydd Gwyl Dewi.

ADRODDIAD HOLIADUR - GWEITHREDU AR FARN Y BOBL 2022

Cefndir
Yn yr Hydref 2022, cynhaliwyd arolwg trwy Facebook hefo pentrefwyr Llanfairpwll, er mwyn derbyn eu barn am amrywiol faterion a blaenoriaethau yn y pentref. Er mwyn sicrhau hygrededd i'r broses (a'r Cyngor Bro!), o fod wedi gofyn am farn y pentrefwyr, mae'n hanfodol ein bod ni'n adrodd yn ôl iddyn nhw yn yn dwedu beth fyddwn ni'n ei wneud. Mae'r papur hwn yn crynhoi hynny, gan roi sylw i'r prif faterion/flaenoriaethau a godwyd.

Canfyddiadau

1. Baw Cŵn
Dyma'r prif bwnc a godwyd, sef cwynion am berchnogion cŵn sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn ar balmentydd a llwybrau'r pentref

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd
Gill – Sgen ti fanylion yma am yn union be sy wedi'i neud plîs?

2. Uwchraddio'r Parc
Cafwyd nifer o sylwadau am y parc a'r angen i drwsio a diweddaru'r parc.

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd
- Mae £1,000 wedi ei glustnodi yng nghyllideb y Cyngor Bro ar gyfer 2023/2024 ar gyfer gwella'r matiau ac adnewyddu dau swing
- Bydd y Cyngor Bro yn ymchwilio i grantiau er mwy medru datblygu'r Parc yn gyflymach
- Bydd y Cyngor Bro yn ymgynghori ar gynlluniau wrth gyflwyno ceisiadau am grantiau

3. Creu Tir Hamddena
Derbyniwyd neges glir gan garfan o'r bobl a ymatebodd i'r holiadur yn nodi yr hoffent weld tir yn cael ei gadw/ddatblygu ar gyfer hamddena.

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd
- Mae'r Cyngor Bro wedi sicrhau tir ac gyfer rhandiroedd sydd eisoes wedi cael eu gosod a byddant yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf y gwanwyn hwn
- Mae'r Cyngor yn teimlo'n gryf o ran cadw'r tir glas rhwng yr A55 a'r pentref yn dir na fydd yn cael ei ddatblygu; a gwrthwynebodd y Cyngor yn gryf i'r cais cynllunio i godi tai y tu ôl i Stad y Garnedd

4. Sefydlu cynllun ynni lleol

Mynegwyd diddordeb yn y syniad hwn

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd

- Mae'r Cyngor Bro eisoes wedi gofyn am gyngor gan unigolyn sy'n brofiadol yn y maes a deellir fod y gwaith hwn yn gofyn am arbenigedd a mewnbwn amser sylweddol
- Mae'r Cyngor Bro yn agored i'r syniad hwn ac am barhau i ymchwilio i bosibiliadau, ond nid oes cynllun pendant i weithredu unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd

5. Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus

Cafwyd adborth fod hwn yn faes sydd angen sylw

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd

- Mae'r Cyngor Bro yn gyfrifol am rai llwybrau ac yn cyflogi unigolyn i'w cynnal a'u cadw yn rheolaidd. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hynny er mwyn gwella eu cyflwr
- Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal a chadw rhai llwybrau eraill. Byddwn yn codi'r mater hwn hefo nhw er mwyn gwella eu cyflwr

6. Parcio/Gor-yrru

Mae hyn yn cael ei weld fel problem mewn mwy nag un lleoliad, hefo parcio wrth yr ysgol yn cael ei nodi'n aml, a chyflwr maes parcio Pringles yn destun beirniadaeth.

Camau i'w cymryd / wedi'u cymryd

- Mae hi'n fwriad gosod peiriant talu ac arddangos ym maes parcio'r 'Post' fel nad ydy pobl yn gadael eu ceir yno drwy'r dydd
- Byddwn yn cynnal trafodaethau hefo'r Ysgol a'r Cyngor Sir am y parcio ar y brif ffordd wrth ymyl yr ysgol
- Rydym wedi trefnu bod llinellau melyn dwbl wedi cael ei peintio gyferbyn â'r Co-op a bydd lleoliadau eraill yn cael eu hystyried yn y dyfodol agos
- Bydd cyflymder y cyflymder uchaf ar Ffordd Caergybi yn cael ei ostwng i 20mya yn unol â'r rheolau cenedlaethol newydd

7. Cyflwr yr Orsaf a Maes Parcio Pringles

Mae gan y Cyngor Bro berthynas dda hefo rheolwyr Pringles ac mae cyflwr y maes parcio eisoes wedi cael ei godi hefo nhw ac mae bwriad i gynnal gwaith yno gan y cwmni.

8. Cyfathrebu

Er bod Facebook un gyfrwng effeithiol i rannu gwybodaeth am waith y Cyngor Bro, rydym yn cydnabod nad ydy pawb yn defnyddio'r cyfrwng hwnnw.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella ein dulliau o gyfathrebu, ac mae hynny'n cynnwys gorffen uwchraddio'r wefan, a gosod Bwrdd Gwybodaeth newydd wrth ymyl y Parc (yn ogystal â'r un wrth y Ddeintyddfa).

9. Gwirfoddoli

Diolch i gymaint ohonoch chi am fynegi eich parodrwydd i gydweithio hefo'r Cyngor Bro, ar sail wirfoddol, mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Byddwn yn gwneud mwy yn ystod y flwyddyn i wella'r cyfathrebu hefo trigolion y pentref ac i roi'r cyfle i'r rheiny sydd eisiau, i gyfrannu at wahanol brosiectau neu weithgareddau.

Diolch yn fawr

Ifor Gruffydd

Ymlaen a ni i'r flwyddyn nesaf 2023/24

Diolch ichi gyd